






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grŵp Cynggori Technegol

Archwilio marwolaethau cysylltiedig â

COVID-19 yng Nghymru

15 Gorffennaf 2020



Archwilio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru

Merion Evans, Brendan Collins, Sara Hayes, Fliss Bennee, Glyn Jones

Canfyddiadau allweddol

- Ar gyfartaledd, roedd llai o farwolaethau yng Nghymru na'r DU gyfan yn ystod ton gyntaf y pandemig COVID-19, a llai o farwolaethau na'r rhan fwyaf o rannau o Loegr.
- Nid ydym yn deall yn llawn pam digwyddodd hyn eto.
- Mae angen gwneud mwy o waith ar lefel y DU i ddeall y berthynas rhwng COVID-19, ymyriadau polisi a marwolaethau yn y pedair gwlad, er mwyn gallu lliniaru cymaint o niwed â phosibl mewn tonnau yn y dyfodol.

Wrth i don gyntaf y pandemig COVID-19 gilio yn y DU, mae ffenestr fechan i roi cyfle i ni ddysgu o'r profiad dychrynlyd o golli bywydau oherwydd y feirws. Er mwyn cynllunio mesurau i leihau niwed tonnau pellach o'r haint, mae'n hanfodol ein bod yn dysgu popeth y gallwn ei ddysgu o'r achosion sydd wedi bod. Drwy ymchwilio i'r marwolaethau cysylltiedig â COVID yn ystod cyfnod brig cyntaf yr haint, rydym yn gobeithio deall beth sydd wedi achosi'r lledaeniad, beth oedd yn gwneud ein poblogaeth yn agored i niwed, a pha bolisiau a allai fod fwyaf effeithiol wrth leihau niwed tonnau yn y dyfodol. Mae'r naratif isod yn cael ei gefnogi gan gasgliad o dystiolaeth a gyflwynir yn yr atodiad cysylltiedig.

Beth ydyn ni'n ei wybod?

Nid yw gwledydd y DU wedi dioddef ar lefel gyfartal yn sgil COVID-19.

Yn y tri mis rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2020, cofnodwyd 180,586 o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr. COVID-19 oedd y rheswm isorweddol wnaeth achosi marwolaethau 43,763 o bobl, ac roedd yn ffactor mewn 2,924 o farwolaethau ychwanegol – chwarter o'r holl farwolaethau yn ystod y cyfnod hwn. Yng Nghymru, roedd 2,257 o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 rhwng 1 Mawrth a 31 Mai.¹ O edrych ar y data mewn mwy o fanylder, fe welwn fod canran y marwolaethau ychwanegol yn ystod y cyfnod cyfatebol (29 Chwefror – 5 Mehefin 2020) yn 24.1% ar gyfer Cymru a 42.0% ar gyfer Lloegr². Pe bai gan Gymru'r un ganran o farwolaethau ychwanegol â Lloegr, byddai 1,628 o farwolaethau ychwanegol wedi bod yn ystod y

¹ Ffynhonnell: Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar farwolaethau a gofrestrwyd. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r data gwyliadwriaeth cyflym a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am nifer o resymau. Gweler: <https://digitalanddata.blog.gov.wales/2020/05/05/chief-statisticians-update-explaining-covid-19-mortality-data-sources-for-wales>

² Cyngor ad hoc i Weinidogion Cymru, 18 Mehefin 2020. Gweler <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/excess-deaths-calculation-up-to-5-june-2020.ods>

tri mis yma. Ni ddigwyddodd hynny, ond nid ydym yn gwybod pam eto. Roedd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon ganrannau gwahanol eto, ac mae'n bosibl bod y rhain yn gysylltiedig â'r gwahaniaeth yn lledaeniad COVID-19.

Mae'n anodd mesur effaith COVID-19. A dweud y gwir, mae'n anodd mesur y marwolaethau yn sgil COVID-19. Mae defnyddio cyfanswm y marwolaethau, fel y gwneir uchod, yn fesur crai nad yw'n rhoi llawer o wybodaeth fanwl. Yn hytrach, gallwn ddewis mesur cymharu cymesur, fel marwolaethau fesul 100,000 o bobl. Nid yw hyn yn ystyried pa mor agored yw'r boblogaeth i haint COVID-19 a'i niwed. Mae angen i ni barhau i ystyried y gwahaniaethau o ran oedran, rhywedd, ethnigrwydd, iechyd, pa mor agored i niwed yw pobl, a dwysedd y boblogaeth, ymysg ffactorau eraill, os ydym ni am ddeall effaith wirioneddol y coronafeirws.

Fe wnaeth y SYG gyfrifo "cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran" o'r holl achosion. Mae'r rhain yn fesur cymaradwy o farwolaeth rhwng ardaloedd sy'n well na mesur nifer y marwolaethau, oherwydd maent yn ystyried maint y boblogaeth a'i strwythur oedran. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys nac yn ystyried yr amrywiaeth o ffactorau posibl a ddisgrifir uchod. Os gallwn ni ddeall beth oedd y gwahaniaeth ac a oes gennym ni unrhyw reolaeth drosto, **gallem ni achub bywydau ledled y DU** pan ddaw tonnau o'r pandemig yn y dyfodol.

Beth yw'r cynllun?

Rydyn ni eisiau archwilio'r broblem drwy ystyried y marwolaethau ychwanegol a'r marwolaethau cymesur oherwydd COVID-19 yn erbyn nifer o newidynnau ar draws pedair gwlad y DU.

Bydd cwestiynu ein data ein hunain yn y GIG, cronfa ddata SAIL a'r consortiwm genomeg yn ein helpu ni i ddeall beth allai fod wedi gweithio yng Nghymru. Mae amrywiadau o fewn Cymru y mae modd ymchwilio iddynt hefyd. Fodd bynnag, bydd edrych ar draws y DU yn dweud llawer mwy wrthym ni am ledaeniad ac effaith yr achosion ledled y DU a pha effaith mae gwahanol ymyriadau wedi'i chael, gan eu bod wedi cael eu cyflwyno ar adegau gwahanol ac mewn ffyrdd gwahanol.

Dylem dalu sylw penodol i'r achosion mewn ysbytai a sefydliadau, sydd wedi chwarae rôl flaenllaw yn nhrosglwyddiad y salwch yn ystod y cyfnod hwn.


Dadansoddiad

Mae dadansoddi marwolaethau ychwanegol fesul wythnos a fesul gwlad neu ranbarth yn dangos patrwm tebyg ym mhob rhanbarth, ond gyda newidiadau bach o ran yr amserlen a graddfa'r brig. Yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr y gwelwyd marwolaethau ychwanegol (hynny yw, lefelau marwolaethau uwch na'r cyfartaledd diweddar ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn) yn gyntaf, ychydig yn gynt na gweddill y wlad. Yn gyffredinol, erbyn diwedd mis Ebrill, roedd nifer y marwolaethau yng Nghymru 25% yn uwch na'r cyfartaledd dros 5 mlynedd, a oedd yn is na Lloegr (46%) a'r Alban (37%). Llundain sydd â'r gyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran uchaf oherwydd COVID-19 ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r ffigur ar gyfer Cymru yn debyg i Ddwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr a De-ddwyrain Lloegr, a dim ond yn uwch na De-orllewin Lloegr fel arall.³


³ <https://digitalanddata.blog.gov.wales/2020/06/16/chief-statisticians-update-how-does-covid-19-mortality-in-wales-compare-with-the-rest-of-the-uk-and-how-does-it-vary-within-wales>

Cafodd **Ffigur 1⁴** ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf, ond mae'n cynnwys y cyfnod dan sylw.

Deaths by regions in England, and Wales, week ending 3 July 2020



Mae **Ffigur 2⁵** yn dangos marwolaethau ychwanegol fel canran o'r cyfartaledd dros 5 mlynedd, fesul awdurdod lleol (Cymru a Lloegr) neu ardal cyngor (yr Alban). Mae maint y swigod yn cynrychioli maint y boblogaeth.




⁴<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/death-registered-weekly-in-england-and-wales-provisional/week-ending-3-july-2020#deaths-by-region-in-england-and-wales>

⁵ SYG drwy The Health Foundation, marwolaethau a gofrestrwyd rhwng yr wythnos oedd yn dod i ben ar 22 Mawrth 2020 a'r wythnos oedd yn dod i ben ar 22 Mai

Yng Nghymru, roedd y cyfraddau marwolaethau uchaf ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae hyn er gwaethaf yr achosion nosocomiaidd ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn fuan yn ystod y pandemig. Roedd yn ymddangos bod y pandemig yn teithio ar hyd y prif lwybrau o Loegr, ar hyd yr M4 o Fryste yn y De ac o Gaer a Lerpwl yn y Gogledd. Roedd y cyfraddau heintio isaf ym myrddau iechyd Hywel Dda a Phowys.

Roedd y marwolaethau yn chwarter cyntaf 2020 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, efallai o ganlyniad i'r gaeaf mwyn. Gallai hyn fod wedi cynyddu oedran y boblogaeth a pha mor agored i niwed oedd hi yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig.

Ffigur 3⁶. Nifer y marwolaethau ychwanegol a'r marwolaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 fesul wythnos, a gofrestrwyd hyd at 1 Mai, Cymru a Lloegr



Beth yw'r casgliad?

Ni fydd yn bosibl deall gwir effaith SAR-COV-2 ar Gymru a'r DU yn ehangach am sawl blwyddyn. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod darlun cymhleth o niwed tymor byr a thymor hir i'w ddeall, ac mae hanes yn dangos i ni y gallai tonnau pellach pandemig fel hwn fod yn fwy difrifol.

Rydyn ni wedi gofyn i'r SYG gynnal astudiaeth mor llawn â phosibl gyda'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â'r marwolaethau ychwanegol ledled y DU a fesul gwlad, yn y gobaith y bydd yn gallu nodi dulliau neu ffactorau risg a fydd yn ein helpu ni i leihau niwed tonnau pellach.

Hyd yn hyn, rydyn ni'n gwybod bod cyfraddau marwolaethau yn uwch ymysg pobl hŷn, pobl o gefndiroedd BAME⁷ a chymunedau difreintiedig⁸ felly mae angen parhau i ganolbwyntio ar adnabod ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Mae cyfraddau marwolaethau yn gyson uwch ymysg dynion ar draws pob grŵp

⁶ Dadansoddiad y SYG o farwolaethau a gofrestrwyd nad oeddent yn ymwneud â'r coronafeirws

⁷<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/coronavirusrelateddeathsbyethnicgroupenglandandwales/2march2020to10april2020>

⁸<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/deathsinvolvingcovid19bylocalareaanddeprivation>

ethnig.⁹

Mae'r rhan fwyaf o'r marwolaethau ychwanegol wedi digwydd o ganlyniad i COVID-19, gyda chyfran fach o'r rheini yn farwolaethau lle roedd COVID-19 wedi cyfrannu atynt ond nad hwnnw oedd yr achos isorweddol, a chyfran fwy (tua thraean) yn farwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19.

Ar lefel unigol, mae'n hysbys bod cysylltiad cryf rhwng y risg o farwolaeth ac oedran hŷn, yn ogystal ag amddifadedd ac ethnigrwydd.

Mae amrywiadau fesul gwlad a rhanbarth o ran marwolaethau ychwanegol yn adlewyrchu'r amrywiad mewn marwolaethau safonedig yn ôl oedran.

Mae'n debygol mai'r ffactorau pwysicaf ar gyfer lleihau marwolaethau mewn tonnau COVID-19 yn y dyfodol yw:

1. **Adnabod yn gynnar bod yr haint yn ailgodi yn y gymuned.** Mae angen systemau rhybudd cynnar sensitif sy'n darparu mesurau gwyliadwraeth epidemiologol da drwy, er enghraifft, fonitro metrigau allweddol mewn amser real yn y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ac adnabod achosion yn fuan.
2. **Canolbwyntio'n barhaus ar adnabod ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.** Mae'r cyfraddau marwolaeth uchaf ymysg pobl hŷn, pobl o gefndiroedd BAME a chymunedau difreintiedig.

Gwaith pellach

Mae llawer o gwestiynau heb gael eu harchwilio, a allai fod wedi effeithio ar yr amrywiad yng nghyfran y marwolaethau ychwanegol yn sgil COVID-19 ar draws gwahanol rannau o'r DU.

Mae ein cwestiynau'n canolbwyntio ar ganfod a oes ffactorau y gallwn ddylanwadu arnynt i leihau'r niwed yn sgil COVID-19 yn y DU.

- Ffactorau nad oes modd eu rheoli:
 - A gafodd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fwy o amser i baratoi ar gyfer y feirws na Lloegr?
 - A oedd y feirws wedi gwasgaru mwy nag oeddem wedi'i ddisgwyl neu ei fodelu i ddechrau?
 - A yw dwysedd poblogaeth yn arwyddocaol o ran lledaeniad?
 - A oedd amrywiadau rhwng gwledydd yn unol â'r cyfyngiadau symud?
 - Faint o'r amrywiad sy'n seiliedig ar gyflyrau iechyd isorweddol y boblogaeth?
 - Beth ydym ni'n gallu ei ddweud am nifer y marwolaethau ychwanegol a welwyd mewn cartrefi gofal ac unrhyw wahaniaethau yng nghyfraddau'r oedolion sydd mewn cartrefi gofal mewn gwahanol rannau o'r wlad?
- Ffactorau y mae modd eu rheoli:
 - Beth oedd cyfran y teithwyr tramor?
 - A wnaeth cynulliadau torfol gael effaith arwyddocaol?
 - A gafodd ymyriadau oni bai am y cyfyngiadau symud effaith arwyddocaol?
 - Sut oedd symudedd yn cymharu ar draws gwahanol rannau o'r wlad?
 - Pa effaith gafodd olrhain cysylltiadau?
 - A oes effaith gysylltiedig ag argaeledd cyfarpar diogelu personol?

⁹ Ffynhonnell?


- Pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â heintiau nosocomiaidd mewn ysbytai a chartrefi gofal?
- A oedd gwahaniaeth rhwng mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bobl â COVID-19 a phobl â phroblemau iechyd eraill?
- Cwestiynau ehangach
 - Sut cafodd digwyddiadau lledaeniad eang eu rheoli?
 - A fu gostyngiad yn nifer y marwolaethau a achoswyd gan bethau eraill, e.e. anafiadau mewn damweiniau ar y ffyrdd?
 - Pa mor effeithiol oedd y polisi gwarchod?

Atodiad


Gwelir isod ddetholiad o dablau data a darluniau a luniwyd gan y SYG, GOV.UK, DHSC ac eraill i roi sail i'r papur naratif "Archwilio marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru". Mae llawer o'r data yn cael eu rhannu rhwng Cymru a Lloegr, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn heb y naratif ei hun.

1. Nifer cronrus y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru a Lloegr, gan ddefnyddio ffynonellau data gwahanol, hyd at 20 Mehefin¹⁰

Mae'r graff hwn yn dangos bod nifer sylweddol uwch o farwolaethau o ganlyniad i COVID-19 wedi'u cofnodi gan y SYG.



2. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer yr holl farwolaethau a marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 fesul gwlad, Mawrth ac Ebrill 2020¹¹




¹⁰ Cymhariaeth y SYG o farwolaethau wythnosol yng Nghymru a Lloegr

¹¹ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, y DU

3. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 fesul rhanbarth a gwlad, Cymru a Lloegr, 1 Mawrth i 31 Mai¹²

Mae'r graff hwn yn dangos dadansoddiad pellach o gyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran, gan nodi eu bod yn amrywio'n helaeth.




4. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 fesul Bwrdd Iechyd, Cymru, 1 Mawrth i 31 Mai¹³

¹² SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19

¹³ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19


DDIM YN BOLISI LLYWODRAETH CYMRU




5. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, ardaloedd trefol a gwledig, Cymru a Lloegr, 1 Mawrth i 31 Mai¹⁴

¹⁴ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19

DDIM YN BOLISI LLYWODRAETH CYMRU



6. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran o ganlyniad i COVID-19 fesul pumed amddifadedd, Cymru, hyd at 12 Mehefin¹⁵



Mae pumedau amddifadedd yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019.

Mae'r graff yn dangos, yn yr un modd â llawer o glefydau eraill, bod marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn dangos graddiant clir mewn perthynas ag amddifadedd. Yng Nghymru, mae'r gyfradd marwolaethau ymysg y bobl yn y cwintel â'r lefel uchaf o amddifadedd yn sylweddol uwch nag unrhyw gwintel arall, a bron ddwywaith cymaint ag y mae ymysg y bobl yn y cwintel â'r lefel isaf o amddifadedd.

7. Cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 (fesul 100,000 o bobl) yn ôl rhyw a grŵp ethnig, 2 Mawrth i 15 Mai, Cymru a Lloegr¹⁶

¹⁵ SYG drwy ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru


¹⁶ SYG Crynodeb y coronafeirws (COVID-19), 19 Mehefin 2020

Ethnic Group	Males			Females		
	Rate	CI lower	CI higher	Rate	CI lower	CI higher
White	87.0	85.7	88.3	52.0	51.1	52.8
Mixed	144.4*	120.3	168.5	75.9*	60.5	91.3
Indian	157.5*	144.8	170.3	86.8*	77.9	95.6
Bangladeshi\Pakistani	191.0*	172.9	209.1	100.8*	87.9	113.7
Chinese	119.4*	94.2	149.2	65.4	48.4	86.3
Black	255.7*	238.1	273.3	119.8*	109.5	130.1
Other ethnic group	167.7*	150.1	185.3	83.4*	72.0	94.8

* Cyfradd arwyddocaol uwch yn yr ystadegau o'u cymharu â phobl ag ethnigrwydd Gwyn.

Mae cyfraddau marwolaethau yn amrywio'n sylweddol rhwng y rhywiau a grwpiau ethnig hefyd. Mae'r tabl hwn yn dangos bod cyfraddau marwolaethau yn gyson uwch ymysg dynion ar draws pob grŵp ethnig. Mae hefyd yn dangos cyfraddau arwyddocaol uwch ym mhob grŵp lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio menywod Tsieineaidd) o'u cymharu â chyfradd marwolaethau yn y grŵp ethnigrwydd Gwyn. Mae'r gyfradd marwolaethau ymysg dynion Du bron dair gwaith cymaint â'r gyfradd ymysg dynion Gwyn, ac mae'r gyfradd marwolaethau ymysg menywod Du dros ddwywaith cymaint â'r gyfradd ymysg menywod Gwyn. Mae'r gyfradd marwolaethau uchaf wedyn ymysg y grŵp Bangladeshaidd/Pacistanaid, gyda'r gyfradd marwolaethau ymysg dynion dros ddwywaith cymaint â dynion Gwyn, a'r gyfradd ymysg menywod bron i ddwywaith cymaint â menywod Gwyn.

8. Canran y marwolaethau uwch na'r cyfartaledd dros 5 mlynedd fesul gwlad yn y DU, Mawrth ac Ebrill 2020, cofrestrwyd hyd at 15 Mai¹⁷



¹⁷ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, y DU, 1 Mawrth i 30 Ebrill 2020

Roedd 43.0% yn fwy o farwolaethau (44,449 o farwolaethau) na'r cyfartaledd dros bum mlynedd yn y DU ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Lloegr oedd â'r nifer mwyaf gyda 39,020 o farwolaethau, 45.8% yn uwch na'r cyfartaledd dros bum mlynedd. Roedd y nifer lleiaf yng Ngogledd Iwerddon, gyda 413 o farwolaethau, 15.7% yn uwch na'r cyfartaledd dros bum blynedd.

9. Marwolaethau cofrestredig a marwolaethau ychwanegol ar gyfer cyfnod y pandemig, a gofrestrwyd hyd at 12 Mehefin, fesul gwlad y DU gan ddefnyddio cyfradd Cymru ar gyfer gwledydd eraill a chyfraddau gwledydd eraill ar gyfer Gymru¹⁸

	Cymru	Lloegr	Yr Alban	G Iwerddon
marwolaethau (holl achosion)	11,852	198,794	21,169	5,353
Marwolaethau cyfartalog dros 5 mlynedd	9,679	142,217	16,284	4,503
nifer marwolaethau ychwanegol	2,173	56,577	4,885	850
% marwolaethau ychwanegol	22.5	39.8	30.0	18.9

* Seilledig ar farwolaethau a gofrestrwyd, nid marwolaethau a ddigwyddodd

Mae'r ffigurau ar gyfer yr Alban ar gyfer cyfnod sy'n dechrau ac yn gorffen ddau ddiwrnod yn ddiweddarach oherwydd bod eu hwythnos adrodd yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sul yn hytrach nag o ddydd Sadwrn i ddydd Gwener

Mae'r tabl hwn, gan gynnwys wythnos ychwanegol o ddata, yn dangos cyfanswm y marwolaethau, cyfanswm y marwolaethau ychwanegol a chanran y marwolaethau ychwanegol fesul gwlad ac yn ôl dyddiad cofrestru, ar gyfer cyfnod y pandemig (o 29 Chwefror i 12 Mehefin). Yng Nghymru, roedd 2,173 o farwolaethau ychwanegol, a oedd 22.5% yn uwch na'r cyfartaledd dros bum mlynedd. Roedd hyn yn sylweddol is na chanran y marwolaethau ychwanegol yn Lloegr (39.8%) a'r Alban (30.0%), ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (18.9%).

Pan mae cyfran y marwolaethau ychwanegol yng Nghymru yn cael ei defnyddio ar gyfer gwledydd eraill y DU, mae 24,000 yn llai o farwolaethau yn Lloegr a 1,200 yn llai yn yr Alban, ac mae bron i 200 yn fwy o farwolaethau yng Ngogledd Iwerddon. Pan mae cyfrannau'r marwolaethau ychwanegol ar gyfer gwledydd eraill y DU yn cael eu defnyddio ar gyfer Cymru, mae bron i 1,700 o fwy yn farwolaethau gyda chyfradd Lloegr, 700 yn fwy gyda chyfradd yr Alban, a 300 yn llai gyda chyfradd Gogledd Iwerddon.

Defnyddio cyfradd marwolaethau ychwanegol Cymru ar gyfer gwledydd eraill**

	Lloegr	Yr Alban	G Iwerddon
marwolaethau pe defnyddir cyfradd marwolaethau ychwanegol Cymru	174,146	19,940	5,514
gwahaniaeth rhwng marwolaethau	-24,648	-1,229	161

¹⁸ SYG, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS), Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) gyda chyfrifiadau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Defnyddio cyfradd marwolaethau gwledydd eraill ar gyfer Cymru**

	Lloegr	Yr Alban	G Iwerddon
marwolaethau pe defnyddir cyfraddau			
marwolaethau ychwanegol gwledydd eraill	13,530	12,583	11,506
gwahaniaeth rhwng marwolaethau	1,678	731	-346

**Amcan yn seiliedig ar y ffigurau marwolaeth wythnosol a gyhoeddwyd

Mae cyfnod y pandemig yn cynnwys marwolaethau a gofrestrwyd o 29 Chwefror tan 12 Mehefin 2020.

Cyfradd grai fesul 100,000 o bobl, heb ei haddasu ar gyfer gwahaniaethau yn y proffil oedran rhwng gwahanol ardaloedd.

Seiliedig ar y dyddiad y cofrestrwyd marwolaethau, nid y dyddiad y digwyddodd y marwolaethau.

10. Cymharu marwolaethau wythnosol y SYG ar gyfer cyfnod y pandemig, a gofrestrwyd hyd at 12 Mehefin, yn ôl rhanbarthau Lloegr a Chymru¹⁹

Ardal	Holl achosion	Marwolaethau cofrestredig cyfartalog dros 5 mlynedd	Covid fel % o'r holl farwolaethau	Marwolaethau ychwanegol fel % o'r cyfartaledd dros 5 mlynedd	Cyfanswm y marwolaethau COVID fesul 100,000 o'r boblogaeth
Gogledd Ddwyrain Lloegr	10,957	7,943	24.6%	37.9%	100.9
Gogledd Orllewin Lloegr	29,091	20,444	24.8%	42.3%	98.2
Swydd Efrog a'r Humber Ddwyrain Canolbarth Lloegr	20,266	14,900	21.8%	36.0%	80.3
Gorllewin Canolbarth Lloegr	17,352	13,017	20.4%	33.3%	73.1
Ddwyrain Lloegr	22,806	15,676	23.6%	45.5%	90.7
Llundain	23,889	14,131	34.7%	69.1%	92.5
De-ddwyrain	31,855	23,308	21.2%	36.7%	73.6
De-orllewin	20,010	16,406	13.9%	22.0%	49.5
Cymru	11,852	9,679	19.8%	22.5%	74.6
Lloegr	198,794	142,217	23.0%	39.8%	81.4
Lloegr (ac eithrio Llundain)	174,905	128,086	21.4%	36.6%	79.2

Mae cyfnod y pandemig yn cynnwys marwolaethau a gofrestrwyd o 29 Chwefror tan 12 Mehefin 2020.


Cyfradd grai fesul 100,000 o'r boblogaeth, heb ei haddasu ar gyfer gwahaniaethau yn y proffil oedran rhwng gwahanol ardaloedd.

Seiliedig ar y dyddiad y cofrestrwyd marwolaethau, nid y dyddiad y digwyddodd y marwolaethau.

Roedd dadansoddiad o farwolaethau ychwanegol fesul ardal (Tabl 3) ar gyfer cyfnod y pandemig (o 29 Chwefror i 12 Mehefin) yn dangos bod y lefelau uchaf yn Llundain (69.1%) ond eu bod hefyd yn uchel yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (45.5%) a Gogledd Orllewin Lloegr (42.3%). Ymysg rhanbarthau Lloegr, dim ond De-orllewin Lloegr (22.0%) oedd â chyfran lai o farwolaethau ychwanegol na Chymru (22.5%).

¹⁹ Marwolaethau wythnosol y SYG gyda chyfrifiadau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

11. Marwolaethau ychwanegol wythnosol fel canran o'r cyfartaledd dros bum mlynedd, a gofrestrwyd hyd at 22 Mai, fesul gwledydd a rhanbarthau'r DU²⁰



Mae dadansoddi marwolaethau ychwanegol fesul wythnos a fesul gwlad neu ranbarth yn dangos patrwm tebyg ym mhob rhanbarth, ond gyda newidiadau bach o ran yr amserlen.

12. Marwolaethau ychwanegol fel canran o'r cyfartaledd dros 5 mlynedd, fesul awdurdod lleol, bwrdd iechyd (Cymru) neu ardal cyngor (yr Alban). Mae maint y swigod yn cynrychioli maint y boblogaeth²¹.



Mae hyn yn dangos marwolaethau ychwanegol fesul awdurdod lleol. Roedd gan bron i hanner yr awdurdodau lleol dros 50% yn fwy o farwolaethau ychwanegol o'u cymharu â'r marwolaethau arferol.


13. Marwolaethau ychwanegol ar gyfer cyfnod y pandemig, a gofrestrwyd hyd at 12 Mehefin, a dwysedd poblogaeth fesul rhanbarth, Cymru a Lloegr²²

²⁰ SYG drwy The Health Foundation

²¹ SYG drwy The Health Foundation, marwolaethau a gofrestrwyd rhwng yr wythnos oedd yn dod i ben ar 22 Mawrth 2020 a'r wythnos oedd yn dod i ben ar 22 Mai

²² SYG drwy Lywodraeth Cymru

DDIM YN BOLISI LLYWODRAETH CYMRU




Mae cyfnod y pandemig yn cynnwys marwolaethau a gofrestrwyd o 29 Chwefror i 12 Mehefin. Cyfradd grai fesul 100,000 o bobl, heb ei haddasu ar gyfer gwahaniaethau yn y profil oedran rhwng gwahanol ardaloedd. Seiliedig ar y dyddiad y cofrestrwyd marwolaethau, nid y dyddiad y digwyddodd marwolaethau.

Mae'r graff hwn yn dangos marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19 ar gyfer Cymru a rhanbarthau Lloegr, o'u cymharu â dwysedd poblogaeth ar gyfer yr un ardaloedd yn 2018.

Mae sawl esboniad posibl ar gyfer y gwahaniaethau hyn rhwng ardaloedd:

- **demograffeg** (mae'n bosibl bod mwy o farwolaethau ychwanegol ymysg poblogaethau hŷn neu boblogaethau a chyfran fwy o bobl o gefndiroedd BAME)
- **amddifadedd** (mae'n bosibl bod mwy o farwolaethau ychwanegol mewn ardaloedd â lefel amddifadedd uwch oherwydd y lefelau uwch o salwch isorweddol a bod mwy o bobl mewn grwpiau agored i niwed)
- **dod i gysylltiad â'r feirws** (mae'n bosibl bod mwy o farwolaethau ychwanegol mewn ardaloedd â chyfraddau heintio mwy dwys).

14. Nifer y marwolaethau ychwanegol a'r marwolaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 fesul wythnos, a gofrestrwyd hyd at 1 Mai, Cymru a Lloegr²³




Mae'r graff hwn yn dangos cyfanswm y marwolaethau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr yn 2020, gyda'r gwriad safonol a'r cyfartaledd cyfatebol dros bum blynedd. Dydy cyfnodau â lefelau marwolaethau ychydig yn uwch neu is na'r cyfartaledd ddim yn anghyffredin o ganlyniad i ffactorau fel effaith y fflw yn ystod y gaeaf, er enghraifft.

Rhwng canol mis Ionawr a chanol mis Mawrth, roedd nifer y marwolaethau a gofrestrwyd bob wythnos yn is na'r cyfartaledd dros bum mlynedd. O ddiwedd mis Mawrth ymlaen, gwelir bod y marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19 yn bennaf, ond bod rhai nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 hefyd (yr ardal wedi'i lliwio'n goch).


²³ Dadansoddiad y SYG o farwolaethau a gofrestrwyd nad oeddent yn ymwneud â'r coronafeirws

15. Nifer y marwolaethau ychwanegol wythnosol sy'n gysylltiedig â COVID-19, a gofrestrwyd hyd at 1 Mai, Cymru a Lloegr²⁴

Mae'r graff hwn yn dangos dadansoddiad manwl o farwolaethau ychwanegol o'r wythnos a ddaeth i ben ar 27 Mawrth i'r wythnos a ddaeth i ben ar 1 Mai. Mae marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 wedi cael eu rhannu i rai oedd o ganlyniad i COVID-19 yn uniongyrchol a rhai lle gwnaeth COVID-19 chwarae rhan ond nad hwnnw oedd yr achos isorweddol. Mae mwyafrif y marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19 yn uniongyrchol ond mae nifer sylweddol o farwolaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 hefyd, yn enwedig ers dechrau mis Ebrill.



16. Nifer y marwolaethau ychwanegol wythnosol nad ydynt yn ymwneud â COVID-19, a gofrestrwyd hyd at 1 Mai, Cymru a Lloegr²⁵




Dyma'r marwolaethau ychwanegol yn ôl achosion y marwolaethau. O'r wythnos a ddaeth i ben ar 3 Ebrill ymlaen, mae cynnydd cyffredinol wedi bod ym mhrif achosion marwolaethau, yn enwedig mewn marwolaethau o ganlyniad i glefyd Alzheimer's a

²⁴ Dadansoddiad y SYG o farwolaethau a gofrestrwyd nad oeddent yn ymwneud â'r coronafeirws


²⁵ Dadansoddiad y SYG o farwolaethau a gofrestrwyd nad oeddent yn ymwneud â'r coronafeirws

dementia. Mae'r rhain yn cyrraedd uchafbwynt o 2,775 o farwolaethau (220.8% o'r cyfartaledd dros bum mlynedd) yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Ebrill. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y marwolaethau oherwydd clefyd anadlol cronig is, clefyd serebro-fasgwlaidd a chanser yr ysgyfaint yn ystod yr un cyfnod, a chynnydd bach yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i glefyd isgemia'r galon ar ddiwedd mis Ebrill.

17. Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer y 10 prif achos marwolaeth fesul 100,000 o bobl, Cymru, Ebrill 2020²⁶



18. Cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer y 10 prif achos marwolaeth fesul 100,000 o bobl, Cymru, Mai 2020²⁷



²⁶ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 Ebrill 2020 a Mai 2020


²⁷ SYG Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 Ebrill 2020 a Mai 2020

Mae'r ddau graff uchod yn dangos cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau yn ôl achos o'u cymharu â'r cyfartaledd dros 5 mlynedd ar gyfer mis Ebrill a mis Mai yn y drefn honno (sylwch ar y gwahaniaeth yng ngraddfa echelin X). COVID-19 yw'r achos marwolaeth a nodir amlaf yng Nghymru ar gyfer y ddau fis, gan fod yn gyfrifol am 1,326 o farwolaethau (33.0% o'r holl farwolaethau) a 553 o farwolaethau (19.3%) ym mis Mai.

Dyma rai esboniadau posibl am y patrwm hwn:

- **cam-briodoli** marwolaethau oherwydd bod pobl heb gael diagnosis o COVID-19, yn enwedig lle bo symptomau COVID-19 yn anodd eu hadnabod oherwydd cydafiachedd. Mae hyn yn broblem ymysg pobl â dementia yn enwedig, oherwydd efallai eu bod nhw ddim yn gallu mynegi eu symptomau
- **peidio â rhestru COVID-19** ar y dystysgrif marwolaeth oherwydd bod dim prawf cadarnhau ar gael
- **effaith 'dal i fyny'** ymysg pobl fregus iawn oherwydd cyfnod lle cafwyd llai o farwolaethau na'r cyfartaledd dros bum mlynedd yn gynharach yn y flwyddyn, efallai oherwydd tymor ysgafn o ran y fflw.

19. Nifer y marwolaethau ychwanegol yn ôl lleoliad marwolaethau, a gofrestrwyd hyd at 12 Mehefin, Cymru a Lloegr²⁸




Mae nifer y marwolaethau ychwanegol yn ôl lleoliad i'w weld isod. Cafwyd y nifer mwyaf o farwolaethau ychwanegol mewn cartrefi gofal, wedyn ysbysai. Cafwyd y nifer mwyaf o farwolaethau ychwanegol yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 17

²⁸ SYG Marwolaethau cofrestredig wythnosol yng Nghymru a Lloegr, hyd at 12 Mehefin

Ebrill mewn ysbytai, ac yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill mewn cartrefi gofal a chartrefi preifat.

20. Nifer y marwolaethau ychwanegol wythnosol nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 yn ôl lleoliad, a gofrestrwyd hyd at 1 Mehefin, Cymru a Lloegr

Gwelir isod nifer y marwolaethau ychwanegol nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 yn ôl lleoliad y marwolaethau. Mae'r niferoedd mwyaf i'w gweld mewn cartrefi gofal, gydag uchafswm o 2,975 yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 17 Ebrill. Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 mewn cartrefi preifat hefyd, ac fe ddisgynnodd marwolaethau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 mewn ysbytai o dan y cyfartaledd dros bum mlynedd o'r wythnos a ddaeth i ben ar 3 Ebrill 2020 ymlaen. Roedd y marwolaethau ychwanegol mewn cartrefi gofal yn digwydd ymysg menywod yn bennaf, a dydy'r marwolaethau mewn cartrefi preifat ddim yn dangos llawer o wahaniaeth yn ôl rhyw. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod nifer y menywod mewn cartrefi gofal dair gwaith yn fwy na nifer y dynion (Cyfrifiad 2011).



Cyfeiriadau

1. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, Cymru a Lloegr: marwolaethau ym mis Mai 2020. (cyrchwyd 26 Mehefin 2020)

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsinvolvingcovid19englandandwales/deathsoccurringinmay2020>

2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Marwolaethau a gofrestrwyd yn wythnosol yng Nghymru a Lloegr, dros dro, hyd at 12 Mehefin 2020. (cyrchwyd 26 Mehefin 2020)

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/dataset/weeklyprovisionalfiguresondeathsregisteredinenglandandwales>

